Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CHWEFROR 2008

DYDDIAD	Nos Fercher, 20fed Chwefror, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Canolfan CAE'R GORS, RHOSGADFAN
AELODAU PRESENNOL	Tom Ellis (Cad), Neal Williams, Gwilym V.Thomas, Huw Williams, Elwyn Jones, Gwilym L.Williams, Nerys Evans, Jason Hunt
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Glyn Owen; Bethan Williams, Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**
Emrys Jones, Elin Evans, Jane Eryl Jones, Meurig Williams.

2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion**
Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   - **a.** Angen gwella llwybrau oddi fewn i Cefnfaes Clerc i holi am bris gan Wyn i ail-wynebu'r llwybrau a chael gosod 'kerbs'. Hefyd awgrymu sgwennu at Carter Jonas ynglyn a phryniant tir pellach.
   - **b.** Dwr ar y ffordd Llanfaglan – Llandwrog. Hefyd problem ger y junction yn Saron – oes posib gosod kerbs. Ty'n Rhos – bws Express Motors wedi malu'r arwydd chevron. Cafwyd ymateb gan Meirion Williams, Adran Briffyrdd yn nodi fod sylw yn cael ei roi i'r materion yma ynghyd â stepiau Muriau.
   - **c.** Cwynion nad ydy pobl yn gallu ffendio'r safle wê. Eglurwyd fod angen i lawer iawn o bobl ymweld â safle wê cyn y daw yn amlwg ar Google er enghraifft.
   - **d.** Parcio ger Bro Wyled. Clerc i gysylltu efo'r Adran Briffyrdd gan bwyso arnynt fod angen gwneud rhywbeth.
   - **e.** Sbwriel yn broblem fawr ar hyd y ffordd rhwng Rhostryfan a Ffrwd Cae Du. Clerc i geisio cael arwyddion sy'n dynodi'r ffein posib ac i godi ymwybyddiaeth pobl yn gyffredinol.
   - **f.** Caeau gyferbyn a Geufron. Nodwyd fod dau berchennog i'r cau bellach ac felly mae angen giat/camfa yn y ffens.
   - **g.** Lein Bryngwyn – wedi derbyn copi o lythyr Dewi Pritchard Jones at Gyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd yn gofyn am arweiniad cyfreithiol gan eu hadran hwy. Nododd GO fod cyfarfodydd rheolaidd yn digwydd rhwng Cyngor Gwynedd a Chwmni Rheilffordd Ffestiniog, ac y byddai'n dda o beth cael cynrychiolydd o Gyngor Llanwnda ar y pwyllgor ac i ofyn i gael rhoi'r mater ar yr agenda nesaf. Penderfynwyd enwebu ElJ a HW i gynrychioli Cyngor Llanwnda.

h. Cyfadran Datblygu – Ad-drefnu ysgolion – ffurflen ymateb, NE a'r clerc i gyfarfod i lenwi'r holiadur ar ran Cyngor Llanwnda.

i. Cynulliad - côd ymddygiad aelodau'r cyngor. Nodi fod angen i bob aelod arwyddo'r Côd Ymddygiad erbyn mis Mai eleni.

j. Llythyr gan Gyngor Cymuned Llanllyfni – pwyllgor ardal wedi'i drefnu ar nos Lun, 25ain Chwefror am 7p.m yn Neuadd Groeslon i drafod prisiau claddu yn yr ardal. Disgwylir i aelodau o is-bwyllgor y fynwent fynychu plis (GLW a NE) – angen cynrychiolydd arall i bwyllgor y fynwent.

k. Gorchymyn cau ffordd rhwng Rhostryfan a Rhosgadfan – clerc wedi derbyn cwyn gan gwmni Silver Star. Cyngor Gwynedd wedi gwrthod talu am fws ychwanegol i gasglu pobl o Rhostryfan. Clerc i bwyso eto ar y cyngor i helpu.

l. Cynulliad – swm priodol o dan adran 137(3) – sef £5.86 am bob etholwr.

m. Cynulliad – Arolwg Rhanddeiliad 2008-02-14

n. Wedi cael galwad ffôn gan Paula Owen, Cyngor Gwynedd yn nodi efallai fod arian yn y coffrau i godi cysgodfan fysiau yn Llanwnda. Gwnaethpwyd cais nôl ym mis Gorffennaf 2003. Clerc i nodi union leoliad.

o. Cynulliad – benthyciadau ar gyfer Cynghorau Cymuned.

p. Cytunwyd i dalu £8 yr wythnos i Wyn Williams i archwilio'r offer a chlirio sbwriel o'r cae chwarae ger Ysgol Rhostryfan.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	18,919.08
Cyfri Siec:	1,010.80
Taliadau:	
Cyflog/costau clerc – mis Rhagfyr	395.15
Cyllid y Wlad	97.35
Wyn Williams	187.00
Un Llais Cymru – tâl aelodaeth blwyddyn	198.00
YN WEDDILL	**£19,052.38**
Eto i'w talu:	
Cyngor Gwynedd – bil a rhybudd am yr arwyddion LED (dal yn ôl ar y taliad hyd nes bydd yr arwyddion wedi'u trwsio)	8918.89
Addewid i Ysgol Rhostryfan	1,000.00
GWIR FALANS	**£9,133.49**

Materion Cynllunio
Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO8A/0041/24/LL Braich Melyn, Rhostryfan – estyniaid un llawr, porth i gar ac ystafell wydr
CO8A/0089/24/LL – Bryn Horeb, Rhostryfan – estyniad deulawr i gefn yr eiddo a chodi porth newydd ar flaen yr eiddo
CO8A/0102/24/LL – Ty'n Ffrwd, Rhos isaf – estyniad llawr cyntaf

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol ac mae'r aelodau'n falch iawn fod datblygiad ar y safle yma o'r diwedd, ond hoffem nodi nad yw dyluniad y cynllun yn gweddu. CO8A/0034/24/LL – Safle Neuadd Rhosgadfan – cais i godi dau dy deulawr, creu mannau parcio a gosod tan septic

Eisoes wedi'u caniatau:
Slaters, Dinas – arwyddion newydd
Fferm Chatham, Llandwrog – trosi ac addasu adeiladau allanol i ffurfio un ty a dau lety gwyliau
Bryn Peris, Rhos Isaf – newid i'r cais blaenorol
Ceunant, Rhostryfan – estyniad i lolfa wydr

Gohebiaeth:
a) Siôn Owen – holi am unrhyw waith achlysurol
b) Llythyr yn ein hysbysu am daith dros fywyd Sefydliad Aren Cymru
c) Un Llais Cymru – gohebiaeth
d) Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) NE yn awyddus i gael presenoldeb yr heddlu yma eto – clerc i drefnu cyfarfod cyhoeddus.

b) NE yn atgoffa'r clerc fod angen cwblhau'r gwaith ar gael arwyddio 30 milltir yr awr i bentref Rhos Isaf ac ar y ffordd i lawr at Ysgol Felinwnda.

c) TE – arwyddion ar y 'by-pass' i ddynodi llwybrau cyhoeddus

d) Hw – palmant Aberalaw i Penyffordd – clerc i holi Gwyn Morris Jones.

e) GVT – tirlenwi Cilgwyn. Heb gael atebion ynglyn â chau'r safle. Eglurodd GO fod estyniad wedi'i ganiatau hyd at ddiwedd y flwyddyn ond heb gael penderfyniad pellach ar y mater.

f) GVT – llwybr sy'n arwain o Gwynfryn i Gors Goch – ceffylau yn malurio'r llwybr; llwybr hebiio Gwynfryn – y perchennog yn hawlio'r llwybr ac yn tipio yno. Clerc i fynd ar ôl y swyddog llwybrau.

g) GVT – lamp ger Tan Braich/Dafarn ddim yn gweithio.

h) NW nodi fod angen gwaith ar Dai Gwelfor. Nododd GO fod gwaith eisoes wedi'i drefnu ar gyfer y tai sy'n mherchnogaeth y cyngor. Nododd NW fodd bynnag fod y gwaith sydd wedi'i wneud yn wael iawn. Clerc i roi gwybod i Richard Wyn Roberts, Adran Dai.

i) ElJ – angen cael arwyddion 'dim sbwriel' ar y ffordd rhwng Rhostryfan a Ffrwd Cae Du.

j) JH – ciosg Rhostryfan – y drws wedi plygu ac yn cael ei chwythu'n agored efo'r gwynt. Clerc i roi gwybod i BT.

k) GLW – coeden gelyn dros y ffordd a Libanus yn creu trafferthion i yrrwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50p.m